Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner

Heddlu • Police DYFED-POWYS

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | **Y Bwrdd Plismona** |
| **Lleoliad:** | **MS Teams** |
| **Dyddiad:** | **21 Hydref 2025** |
| **Amser:** | **2pm–4pm** |

| | |
|---|---|
| **Yr Aelodau:** | • Y Comisiynydd Heddlu a Throseddu, Dafydd Llywelyn<br>• Y Prif Gwnstabl, Ifan Charles<br>• Prif Weithredwr Swyddfa’r Comisiynydd Heddlu a Throseddu, Carys Morgans<br>• Prif Swyddog Cyllid Dros Dro Swyddfa’r Comisiynydd Heddlu a Throseddu, Nicola Davies<br>• Y Cyfarwyddwr Cyllid, Edwin Harries |
| **Hefyd yn bresennol:** | • Swyddog Staff Dros Dro, Yr Arolygydd Lewis Simpson<br>• Cynorthwyydd Gweithredol Swyddfa’r Comisiynydd Heddlu a Throseddu, Sophie Morgan |

## 1. Ymddiheuriadau a chyflwyniadau

Croesawodd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu bawb i’r cyfarfod. Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol yn gywir.

## 2. Yr wybodaeth ddiweddaraf am y camau gweithredu o gyfarfodydd blaenorol

| Cam gweithredu | Crynodeb o’r cam gweithredu | Yr wybodaeth ddiweddaraf |
|---|---|---|
| PB 089 | Yr heddlu i rannu’r polisi ymddeol hyblyg â’r Comisiynydd Heddlu a Throseddu. | **Wedi’i gwblhau** |
| PB 090 | Ystyried presenoldeb Arweinydd Cyswllt Heddlu Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi yn y seminar ariannol i’w chynnal ym mis Tachwedd 2025. | **Wedi’i gwblhau** |
| PB 091 | Cynrychiolydd o Swyddfa’r Comisiynydd Heddlu a Throseddu i fynd i gyfarfod estynedig misol nesaf y Grŵp Prif Swyddogion i drafod arolygiad effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a chyfreithlondeb yr heddlu gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi. | **Wedi’i gwblhau – y gwahoddiad wedi’i rannu** |

| | | |
|---|---|---|
| PB 092 | Cynrychiolydd o Swyddfa’r Comisiynydd Heddlu a Throseddu i fynd i gyfarfod estynedig misol nesaf y Grŵp Prif Swyddogion i drafod arolygiad effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a chyfreithlondeb yr heddlu gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi. | **Wedi’i gwblhau – y gwahoddiad wedi’i rannu** |
| PB 093 | Yr Uwch-arolygydd Neve i gynnal cyfarfod briffio ar gyfer y Comisiynydd Heddlu a Throseddu ynghylch ymgysylltu â’r gymuned yn dilyn lansio’r ap ymgysylltu â’r gymuned yn yr heddlu. | **Wedi’i gwblhau – cyfarfod wedi’i drefnu** |

## 3. Pwnc ffocws:

### a) Adborth ar ddatganiad rheoli’r heddlu

Nododd y bwrdd yr adborth a ddaeth i law ar ddatganiad rheoli’r heddlu.

Nodwyd bod y dyfarniadau hyn parthed datganiad rheoli’r heddlu wedi’u gwneud o safbwynt un unigolyn, heb unrhyw weithgaredd ymgysylltu nac arolygu gan yr heddlu. Nodwyd bod yr adolygiad yn cael ei baratoi fel canllaw at ddefnydd mewnol yn unig, i lywio paratoadau ar gyfer arolygiadau.

Roedd yr adborth yn nodi’r cryfderau canlynol yn natganiad rheoli’r heddlu.

- Bod yr heddlu, yn gyffredinol, yn dangos dealltwriaeth dda o’r galw amdano a’r graddau y gellir ei ddiwallu.
- Bod yr heddlu’n deall y risgiau / heriau presennol sy’n ei wynebu, a’i fod yn cymryd camau i fynd i’r afael â’r rhain o fewn cyfyngiadau ei sefyllfa ariannol.
- Bod y drafodaeth am asedau yn arbennig o gryf, ac yn drylwyr a manwl drwy’r datganiad rheoli.

Gellid gwella’r datganiad rheoli trwy gymryd y camau canlynol:

- Mwy o ddefnydd o ddata i gefnogi trafodaethau ynghylch perfformiad.
- Gallai’r cysylltiadau rhwng y camau fod yn gryfach mewn rhai meysydd: a fyddai cynlluniau cam 3 yn mynd i’r afael yn llawn â’r bylchau a nodwyd yng ngham 2? Fel arall, roedd angen esbonio’r risg a fyddai’n cael ei goddef.
- Rhybudd o ran fformadu: yn yr atodiad cyllid, roedd bathodyn yr heddlu yn gorchuddio rhywfaint o’r testun.

**b) Diweddariad ar y galw yn ystod yr haf**

Cafodd y bwrdd yr wybodaeth ddiweddaraf am y galw yn ystod yr haf gan wahanol adrannau o fewn yr heddlu, a oedd yn nodi'r effaith ar wahanol feysydd o fewn yr heddlu.

O ran yr adran ymchwilio troseddol, nid oedd unrhyw faterion eithriadol i'w hadrodd mewn perthynas â'r galw yn ystod yr haf. Y prif fannau cul a ddaeth i'r amlwg oedd ymchwilwyr a rheolwyr archwilio troseddfannau. Roedd cyllid Ymgyrch Valiant 2025 a ddyfarnwyd i'r Uned Asesu Risg Eilaidd i helpu i fynd i'r afael â'r ôl-groniadau wedi bod o gymorth.

Nodwyd bod y galw yn ystod yr haf i'w weld fel arfer yn dilyn misoedd yr haf gan fod cynnydd posibl yn y troseddau moduro yn arwain at gynnydd mewn atgyfeiriadau i'r Cynllun Cenedlaethol Ailhyfforddi Troseddwyr Gyrru yn y misoedd dilynol. Mae'n bosibl nad atgyfeiriadau ar gyfer troseddau yn ardal Heddlu Dyfed-Powys fyddai'r rhain o reidrwydd gan y gallai troseddwyr drefnu lle ar gyrsiau ledled y DU; felly, nodwyd y gallai galw cynyddol gan sefydliadau heddlu eraill gael effaith.

Fel tîm bach, nodwyd bod y Cynllun Ailhyfforddi Gyrwyr yn gyfyngedig o ran nifer y cyrsiau y gellid eu cyflwyno bob dydd oherwydd y llwyth gwaith a fyddai'n gysylltiedig â nhw, ynghyd â'r diffyg cydnerthedd ymhlith yr hyfforddwyr i drefnu cyrsiau ychwanegol.

Nodwyd bod hyfforddwyr ychwanegol yn cael eu caffael i ddarparu cydnerthedd; fodd bynnag, nid oedd hyn yn dibrisio gallu tîm swyddfa'r Cynllun Ailhyfforddi Gyrwyr i ymdrin â chyrsiau ychwanegol.

**Cam gweithredu: Yr heddlu i gadarnhau a fyddai modd oedi'r Cynllun Ailhyfforddi Gyrwyr er mwyn dal i fyny ac, os felly, a fyddai goblygiadau ariannol i'r heddlu.**

Yn y Ganolfan Troseddau a Digwyddiadau, roedd nifer y galwadau Blaenoriaeth 3 (safonol) yn ystod yr haf wedi bod ychydig yn uwch na'r hyn a gafwyd y llynedd. Er bod y Ganolfan Troseddau a Digwyddiadau wedi gweld ôl-groniadau yn ystod cyfnodau brig ym mis Awst, roedd yr ôl-groniadau wedi parhau ar lefel resymol yn achos troseddau newydd i'w dyrannu a throseddau i'w hymchwilio. Ar ei uchaf, roedd yr ôl-groniad o alwadau newydd am wasanaeth wedi cyrraedd cyfanswm o 375, a gwelwyd 357 o ymchwiliadau parhaus (cyfanswm o 743 yn y llwyth achosion). Roedd hyn o'i gymharu â 467 o alwadau newydd am wasanaeth, ac 1,046 o ymchwiliadau parhaus ar ei waethaf yn ystod yr un cyfnod y llynedd.

Nodwyd mai'r prif ffactor a gyfrannodd at y llwyddiant oedd y lefelau isel o salwch o fewn y tîm, o'u cymharu â'r hyn a gafwyd mewn blynyddoedd blaenorol. Roedd y lefelau salwch ym mis Mehefin a mis Gorffennaf yn arbennig o isel, gyda dim ond dau aelod o'r tîm yn sâl am gyfnod hir. Roedd y lefelau salwch wedi cynyddu ym mis Awst, ond roedd yn parhau i fod yn sylweddol is na'r hyn a welwyd yn y blynyddoedd blaenorol. Defnyddiwyd y rhan fwyaf o'r cyllid Ymgyrch Valiant yn ystod mis Awst a mis Medi (oddeutu £20,000 o'r £30,000 a gyllidebwyd), a oedd

wedi galluogi'r Ganolfan Troseddau a Digwyddiadau i gynyddu ei chapasiti i ymdopi â'r galw.

**Cam gweithredu: Beth oedd y swm a ddyrannwyd (£172,000) ar gyfer Ymgyrch Valiant, a faint sydd wedi'i wario (£231,000)?**

Nodwyd bod yr Uned Ymateb Rhithwir i Gam-drin Domestig wedi llwyddo i ddiwallu'r galw yn ystod yr haf; fodd bynnag, roedd hyn wedi bod yn heriol ar adegau oherwydd nifer y gweithwyr a oedd ar ddyletswyddau eraill. Defnyddiwyd goramser a diwrnodau gorffwys â thâl i lenwi bylchau o ran adnoddi. Roedd prosesau newydd wedi'u cyflwyno lle'r oedd rhingylliaid y Ganolfan Troseddau a Digwyddiadau yn cael eu galw i gyflawni rhai dyletswyddau goruchwylio'r Uned Ymateb Rhithwir i Gam-drin Domestig, sef proses a fyddai'n cael ei hystyried fel ateb hirdymor i reoli'r galw o ran goruchwylio o fewn yr uned.

Er bod y galw wedi'i ddiwallu, nid oedd amseroldeb yr ailgysylltu yn bodloni'r hyn a ddisgwyliwyd gan y tîm, ac roedd nifer fach iawn o ddioddefwyr yn cael eu trosglwyddo'n uniongyrchol i swyddog ar adeg gwneud yr alwad.

**Cam gweithredu: Yr heddlu i ystyried gwella'r gyfradd o drosglwyddiadau byw rhwng Canolfan Gyfathrebu'r Heddlu a'r Uned Ymateb Rhithwir i Gam-drin Domestig.**

O ran y galw yn ystod yr haf yng Nghanolfan Gyfathrebu'r Heddlu, cafwyd 21,500 o alwadau y mis, ar gyfartaledd, ym mis Mehefin, mis Gorffennaf a mis Awst, a oedd yn gynnydd o 415 o alwadau (1%) o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2024, ond gostyngiad o 7,885 o alwadau (11%) o'i gymharu â 2023.

Roedd perfformiad y flwyddyn yn well o lawer o'i gymharu â'r blynyddoedd blaenorol, gyda 94.9% o alwadau 999 yn cael eu hateb yn gyson o fewn 10 eiliad, a'r cyflymder ateb ar gyfartaledd yn 4.9 eiliad gydol y tri mis. Nodwyd bod y perfformiad cryf hwn wedi sicrhau bod Heddlu Dyfed-Powys wedi cadw ei safle ymhlith y pum heddlu uchaf o ran dangosyddion perfformiad allweddol galwadau 999 bob mis. Yn ogystal â hyn, roedd y perfformiad o ran galwadau 101 wedi parhau yn gyson dda, gyda chyflymder ateb ar gyfartaledd o 35 eiliad, a chyfraddau rhoi'r gorau i alwadau yn amrywio ychydig rhwng 6% a 7%, a oedd unwaith eto'n gosod Heddlu Dyfed-Powys ymhlith y pum uchaf o ran dangosyddion perfformiad allweddol galwadau 101.

Roedd y camau a gymerwyd yn cynnwys creu tîm galw yn ystod yr haf o dderbynwyr galwadau profiadol a fu'n gwirfoddoli i newid eu shifftiau dros dro i weithio oriau corfforaethol (o ddydd Llun i ddydd Gwener, rhwng 9am a 5pm) gan mai dyna pryd y byddai'r heddlu'n cael 60% o'i holl alwadau.

Cafodd y garfan o ddechreuwyr eu rhoi ar waith yng nghanol eu cyfnod hyfforddiant i ateb galwadau difrys, gan ganiatáu i atebwyr galwadau profiadol ymdrin â'r galwadau a oedd â natur mwy brys. Roedd y trefniant hwn wedi parhau gydol mis Gorffennaf a mis Awst, a chafodd gystal croeso fel ei fod wedi'i fabwysiadu fel rhan o'r cynllun hyfforddi ar gyfer pob ymgyrch recriwtio yn y dyfodol.

Nodwyd bod cyllid Ymgyrch Valiant yn cael ei ddefnyddio i wella lefelau staffio y tu allan i oriau corfforaethol er mwyn sicrhau bod perfformiad yn cael ei gynnal gyda'r nos a thros nos.

Oherwydd llwyddiant y tîm galw yn ystod yr haf yn cyfrannu at gyflawni lefelau uchel o berfformiad, byddai Canolfan Gyfathrebu'r Heddlu yn eu hefelychu y flwyddyn nesaf. Nodwyd bod Canolfan Gyfathrebu'r Heddlu hefyd yn ystyried opsiynau eraill ar gyfer yr haf nesaf, gan gynnwys staff banc i gynorthwyo lle bo angen, contractau tymor penodol am dri mis, a fyddai'n ddelfrydol ar gyfer myfyrwyr a fyddai am weithio yn ystod yr haf, a phrentisiaethau.

**Cam gweithredu: Darparu mwy o wybodaeth ynghylch cynlluniau ar gyfer contractau tymor penodol ar gyfer yr haf nesaf i fyfyrwyr.**

### c) Diweddariad am blismona'r ffyrdd

Cafodd y bwrdd drosolwg o'r gallu o ran plismona'r ffyrdd, y perfformiad presennol, y prif risgiau, yn ogystal â chyfleoedd i wella.

Nodwyd bod 67 o swyddogion plismona'r ffyrdd wedi'u hyfforddi yn yr heddlu. Roedd 54 ohonynt yn swyddogion plismona'r ffyrdd gweithredol, tri wedi'u secondio i'r uned ymchwilio i wrthdrawiadau difrifol oherwydd y galw parhaus ar yr uned honno, dau yn swyddogion yn dirprwyo dros dro ar reng rhingyll, a'r gweddill wedi'u hyfforddi ond heb eu dyrannu i swydd plismona'r ffyrdd ar y pryd. Roedd nifer fach o drosglwyddeion plismona'r ffyrdd yn yr arfaeth, ond roeddent yn disgwyl am gamau fetio a gwiriadau eraill cyn i swyddi gael eu cynnig iddynt yn ffurfiol.

Nodwyd bod yr uned ymchwilio i wrthdrawiadau difrifol yn cynnwys rhingyll a phedwar cwnstabl gweithredol. Roedd tri ohonynt wedi'u secondio i'r uned oherwydd cyfyngiadau gweithredol aelodau staff parhaol.

Roedd swyddogion plismona'r ffyrdd gweithredol wrthi'n ymchwilio i 63 o wrthdrawiadau lle cafodd pobl anafiadau angheuol neu anafiadau difrifol ar draws yr heddlu. Yn ogystal â hyn, roedd swyddogion plismona'r ffyrdd yn cynnal 430 o ymchwiliadau i droseddau niferus, a oedd yn gynnydd o 41% ers mis Ionawr 2025. Yn ystod 2025, roedd yr heddlu wedi cofnodi 24 o wrthdrawiadau traffig ffyrdd angheuol, a 324 o wrthdrawiadau lle bu anafiadau difrifol.

Bu'r bwrdd yn trafod sut yr oedd yr ymgynghoriad o dan arweiniad Llywodraeth Cymru yn mynd rhagddo ar draws pedwar heddlu Cymru, gyda sefydlogrwydd ariannol parhaus GanBwyll yn brif flaenoriaeth. Serch hynny, roedd gwaith gweithredol GanBwylll yn parhau â chymysgedd cytbwys o weithgareddau addysg, ymgysylltu, codi ymwybyddiaeth a gorfodi yn cael eu cynnal ar draws ardal yr heddlu.

Nodwyd bod y tîm wedi gweld cynnydd o 14% yn nifer y cyflwyniadau gan y cyhoedd i Ymgyrch SNAP. Roedd hyn yn rhannol oherwydd mwy o ymwybyddiaeth a hyrwyddo'r gwasanaeth, ond yr oedd hefyd yn dangos agwedd y cyhoedd tuag at droseddau a fyddai'n cael eu cyflawni ar y ffyrdd yn ardal yr heddlu. Roedd data GanBwyll yn dangos mai ceir a beiciau modur oedd mwyafrif helaeth y cerbydau mewn gwrthdrawiadau lle bu anafiadau angheuol ac anafiadau difrifol, ac mai gwrthdrawiadau o fewn terfynau 60mya (53%) ac 20mya (23%) oedd yn parhau i ddigwydd amlaf.

Roedd unedau rheoli sylfaenol wedi creu cynlluniau plismona problem-gyfeiriedig, gyda'r proffiliau problemau a'r data perthnasol wedi'u darparu gan GanBwyll a'r adran Gweithrediadau Arbenigol i gynorthwyo'r broses. Roedd y rhan fwyaf o unedau rheoli sylfaenol yn cynnal rhyw fath o gyfarfod partneriaeth diogelwch ffyrdd bellach i hyrwyddo'r drafodaeth a dod â'r partneriaid perthnasol â chyfrifoldebau diogelwch ffyrdd ynghyd.

Roedd gwerthusiad plismona'r ffyrdd wedi'i gynnal o'r newidiadau a weithredwyd ym mis Mehefin 2024 ar ôl 12 mis, a daethpwyd i'r casgliad bod nifer yr unigolion a gafodd anafiadau angheuol ac anafiadau difrifol ar ein ffyrdd wedi aros ar lefel uchel, heb unrhyw ostyngiad yn y duedd o gwbl. Ar ben hynny, roedd nifer y troseddau o dan ofal swyddogion plismona'r ffyrdd wedi cynyddu, a oedd yn arwain at ostyngiad mewn gweithgaredd rhagweithiol. Yr adborth gan gydweithwyr mewn lifrai yng ngwasanaeth ymateb yr heddlu oedd nad oedd y cam hwn wedi datrys eu problemau o ran adnoddau ychwaith.

Roedd y gwerthusiad wedi dod i'r casgliad y byddai dod â swyddogion plismona'r ffyrdd yn ôl i'r adran Gweithrediadau Arbenigol yn raddol yn fuddiol, ynghyd â chymryd camau i gynorthwyo plismona rheng flaen mewn lifrai. Byddai'r gwaith o reoli llinell ar gyfer swyddogion plismona'r ffyrdd yn cael ei drosglwyddo yn ôl i ringylliaid plismona'r ffyrdd (o dan y pencadlys) ym mis Tachwedd 2025. Nodwyd bod yr adran yn gweithio gyda chomanderiaid yr uned reoli sylfaenol cyn rhoi hyn ar waith i reoli'r llwyth ymchwilio sylweddol i droseddau, gyda memorandwm cyd-ddealltwriaeth wedi'i ddrafftio, wedi'i alinio â'r matrics dyrannu troseddau i sicrhau trosglwyddiad llyfn.

Dilynodd trafodaeth mewn perthynas â'r gofyniad am waith rheoli perfformiad cadarn a'r angen i ddatblygu dangosfwrdd a fyddai'n caniatáu i fetrigau perfformiad data gael eu hawtomeiddio, gan sicrhau goruchwylio a phenderfyniadau yn cael eu gwneud ar sail tystiolaeth wrth symud ymlaen.

**Cam gweithredu: Yr heddlu i egluro ffynhonnell y cyllid grant ar gyfer datblygu dangosfwrdd a fyddai'n caniatáu i'r metrigau perfformiad data gael eu hawtomeiddio gyda'r Uned Plismona Ffyrdd.**

Cydnabuwyd, er bod plismona'r ffyrdd wedi wynebu heriau yn ystod y 18 mis diwethaf, bod ymdrechion wedi'u gwneud i wrthbwyso'r rhain lle bo modd er mwyn sicrhau bod y rhwydwaith ffyrdd yn parhau i gael ei blismona yn effeithiol. Nodwyd bod y gwerthusiad diweddar wedi rhoi'r cyfle i'r heddlu wella ei berfformiad yn sylweddol yn erbyn strategaeth plismona'r ffyrdd, i gynorthwyo

cydweithwyr yn well o ran blaenoriaethau'r heddlu, ac i gynyddu adenillion ymgyrchoedd cenedlaethol.

## 4. Cwestiynau i'r Prif Gwnstabl

- **Beth yw asesiad y Prif Gwnstabl o effaith camau 1 a 2 o Gofal Cywir Unigolyn Cywir? Yn benodol, pa ddata sydd wedi'u casglu dros y flwyddyn ddiwethaf sy'n dangos tystiolaeth o'r effaith hon, a sut y mae hyn yn cyfateb â'r canlyniadau disgwyliedig?**

Dywedodd y Prif Gwnstabl fod camau 1 a 2 wedi mynd yn fyw ar 14 Hydref 2024, a bod camau 3 a 4 wedi mynd yn fyw ar 18 Awst 2025. Dywedodd fod cyfanswm o 2,267 o ddigwyddiadau Gofal Cywir Unigolyn Cywir wedi'u cofnodi, gyda'r heddlu'n mynd i 1,206 ohonynt, ac yn gwrthod 1,061.

Roedd hyn yn darparu gostyngiad o ryw 50% ym mhresenoldeb yr heddlu ac arbediad o 437 diwrnod o blismona gweithredol. Roedd hyn yn gynnydd ar yr arbedion disgwyliedig o 30%.

- **A fu unrhyw rwystrau o ran ymgysylltu â phartneriaid?**

Nodwyd bod nifer o weithdai wedi'u cynnal cyn lansio camau 1 a 2 gyda phartneriaid strategol allweddol, gan gynnwys byrddau iechyd, awdurdodau lleol, Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, y Gwasanaeth Tân ac Achub, a phartneriaid yn y trydydd sector. Roedd hyn yn cynnwys ymweliadau â sefydliadau addysgol i gwrdd â phenaethiaid ysgolion, a chyflwyniadau i wahanol fyrddau diogelu.

Nodwyd bod Heddlu Dyfed-Powys wedi parhau i ymgysylltu drwy gynnal gweminarau misol lle gallai partneriaid drafod enghreifftiau ac amlygu unrhyw bryderon neu ddysgu sefydliadol.

O ganlyniad i'r uchod, ychydig iawn o rwystrau a gafwyd i ymgysylltu, ac roedd y gwaith hwn wedi'i efelychu ar gyfer camau 3 a 4, gyda digwyddiadau ymgysylltu parhaus a chyfarfodydd yn cael eu cynnal ar lefel strategol / tactegol.

- **Pa gamau y mae'r heddlu wedi'u cymryd i sicrhau bod staff Canolfan Gyfathrebu'r Heddlu yn cael eu cefnogi i ddarparu Gofal Cywir Unigolyn Cywir?**

Dywedodd y Prif Gwnstabl fod staff Canolfan Gyfathrebu'r Heddlu wedi cael cymorth drwy gydol y cyfnod hwn, gyda rhaglen hyfforddi gynhwysfawr yn cael ei darparu ar gyfer pob un o'r pedwar cam. Yn achos camau 1 a 2, cefnogwyd y staff gan 'oruchwylwyr' a fu'n cynorthwyo i roi'r sgript Gofal Cywir Unigolyn Cywir ar waith yn gynnar. Cynhaliwyd proses 'hapsamplu' ar gyfer digwyddiadau Gofal Cywir Unigolyn Cywir, a darparwyd adborth i holl staff Canolfan Gyfathrebu'r Heddlu, gan gynnwys rheolwyr digwyddiadau'r heddlu. Nodwyd bod hyn yn cael ei fwydo i berfformiad misol Canolfan Gyfathrebu'r Heddlu. Cyn rhoi

camau 3 a 4 ar waith, roedd rhaglen hyfforddiant bellach ac ymarfer cyfuno dysgu o gamau 1 a 2.

- **Pa fesurau sydd ar waith i gynnal asesiadau risg ar adeg arestio i nodi pobl sy’n agored i niwed, gan gynnwys anghenion iechyd meddwl; a sut y caiff swyddogion eu hyfforddi yn y maes hwn?**

Ar gyfer pob digwyddiad Gofal Cywir Unigolyn Cywir, nodwyd bod sgript Gofal Cywir Unigolyn Cywir yn cael ei ddilyn i ymdrin â bygythiad, niwed, risg a bregusrwydd. Byddai cwblhau’r sgript hon yn rhan o gamau mesur perfformiad Canolfan Gyfathrebu’r Heddlu. Nodwyd bod swyddogion rheng flaen wedi ymgymryd â hyfforddiant iechyd meddwl a ddarparwyd gan y Cydlynydd Iechyd Meddwl i wella eu gwybodaeth am y maes cymhleth hwn o blismona. Yn ogystal â hyn, roedd swyddogion bellach yn ymgymryd â senario ‘iechyd meddwl’ fel rhan o’u hyfforddiant diogelwch swyddogion blynyddol, lle byddent yn cynnal asesiad risg dynamig ac yn defnyddio’r hyfforddiant y byddent wedi’i gael, gan gynnwys ymgynghori â’r llinell weithwyr proffesiynol iechyd meddwl a chysylltu ag Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru fel y dull trafnidiaeth a ffefrir. Nodwyd bod asesiadau risg hefyd yn cael eu cynnal mewn dalfeydd i nodi anghenion iechyd meddwl a bregusrwydd.

**a) A oes unrhyw arwyddion cynnar o effaith camau 3 a 4 o’r fenter Gofal Cywir Unigolyn Cywir?**

Nodwyd bod gwaith sylweddol wedi’i wneud ym Mwrdd Iechyd Hywel Dda a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys i symleiddio proses adran 136. Roedd 90% yn defnyddio’r llinell ymgynghori broffesiynol, ac erbyn diwedd mis Hydref 2025, byddai ffurflenni adran 136 / gwirfoddol yn cael eu digideiddio i wella amseroedd trosglwyddo a chasglu data.

Yn yr achosion lle nad oedd swyddogion wedi “ymgynghori”, byddai’r digwyddiadau hyn yn cael eu hadolygu, a byddai rhesymau dilys drostynt, megis lefel yr ymddygiad ymosodol neu anaf i’r unigolyn. Pan fyddai swyddogion heddlu yn mynd â phobl wedi’u cadw o dan adran 136 o’r Ddeddf Iechyd Meddwl i fannau iechyd meddwl diogel, yr amser a gymerid i’w trosglwyddo ar gyfartaledd fyddai oddeutu awr. Yn yr achosion pan ddefnyddid yr adran ddamweiniau ac achosion brys fel lle diogel amgen, byddai’r heddlu’n gweld amseroedd aros llawer hirach oherwydd prinder ystafelloedd adran 136 a gwelyau gofal brys adran 140 yng Nghymru. Roedd hyn yn cael ei efelychu ledled Cymru, ac roedd gwaith yn mynd rhagddo ar lefel Llywodraeth Cymru i fynd i’r afael â’r mater hwn.

Roedd y ffigurau a oedd yn adlewyrchu’r defnydd o gerbydau i gludo yn parhau i fod ar 97% yn Heddlu Dyfed-Powys, a 95% ar draws gweddill Cymru. Fel rhan o’r gwaith o roi camau 3 a 4 ar waith, byddai data yn cael eu dadansoddi i edrych ar ddigwyddiadau lle’r oedd yr heddlu wedi cludo er mwyn deall y galw a’r rhesymau dros hyn. Roedd yn dal i fod yn rhy gynnar i gael y data manwl gywir ar gyfer hyn.

**b) A oes unrhyw oblygiadau o ran prosesau ac arferion yr heddlu o ganlyniad i Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol Llywodraeth Cymru 2025–2035?**

Nodwyd bod yr heddlu yn adolygu ei strategaeth a'i bolisi iechyd meddwl, a bod y gwaith hwn yn mynd rhagddo ar hyn o bryd gyda'r Uwcharolygydd Neve a'r cydlynydd iechyd meddwl. Ni ragwelid y byddai unrhyw oblygiadau andwyol o ganlyniad i strategaeth iechyd meddwl a llesiant meddyliol Llywodraeth Cymru. Roedd y gwaith hwn yn cefnogi'r gweithgareddau atal hunanladdiad yr oedd y cydlynydd iechyd meddwl yn rhan ohonynt, a byddai'n cefnogi rhai o'r nodau a oedd wedi'u cynnwys yn strategaeth Llywodraeth Cymru ynghylch gwasanaethau diogel ac amserol, yn enwedig lleihau amseroedd aros ar gyfer asesiadau iechyd meddwl.

## 5. I'w nodi

### a) Yr wybodaeth ddiweddaraf gan y Prif Gwnstabl

Rhoddodd y Prif Gwnstabl adroddiad ar yr wybodaeth ddiweddaraf i'r bwrdd ynghylch digwyddiadau a gweithrediadau a oedd wedi digwydd ers y cyfarfod blaenorol. Dywedodd fod yr adroddiad yn cynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf am waith da gan yr heddlu, gan gynnwys y gwaith a wnaed yn ystod digwyddiad Ironman Cymru, yn ogystal â diweddariadau gweithredol a sefydliadol sylweddol.

### b) Yr wybodaeth ddiweddaraf gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu

Rhoddodd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu ddiweddariad ar ei weithgareddau a'r cyfarfodydd a gynhaliwyd ers y cyfarfod diwethaf, gan gynnwys diwrnod agored i bobl ifanc yn y pencadlys, diwrnodau ymgysylltu cymunedol ym Mhowys a Sir Benfro, a phresenoldeb yn y Symposiwm Ymchwil Cydweithrediad Academaidd Cymru Gyfan yn Wrecsam ac agoriad hwb Canolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol Gwasanaethau Ymosodiad Rhywiol Cymru Aber.

### c) Diweddariad cyllid

Darparodd yr adroddiad ddiweddariad ariannol i aelodau'r bwrdd ar 15 Hydref 2025, gan grynhoi'r sefyllfa alldro ddiweddaraf a ddisgwylid ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol, sef 2025–2026, yn seiliedig ar wariant hyd at 30 Medi 2025. Ar hyn o bryd roedd hyn £0.652 miliwn o fewn y gyllideb. Ym mis Awst 2025, adroddodd yr heddlu sefyllfa o £0.773 miliwn o fewn cyllideb yr heddlu.

Roedd y gyllideb a osodwyd ar gyfer 2024–2025 yn rhagdybio codiad cyflog o 2.8% o fis Medi ar gyfer swyddogion a staff. Nodwyd bod y Bwrdd Negodi Tâl wedi cytuno ar ddyfarniad cyflog o 4.2% i swyddogion o 1 Medi 2025 ymlaen. Roedd yr heddlu wedi amcangyfrif yr un dyfarniad cyflog i staff yr heddlu yn eu rhagolygon o fis Medi ymlaen. Roedd y Swyddfa Gartref wedi nodi y byddai £120 miliwn yn cael ei ddosbarthu rhwng heddluoedd i wrthbwyso rhywfaint o'r bwlch

o 1.4% yn y dyfarniad cyflog.  Byddai cyfran Heddlu Dyfed-Powys yn cyfateb i ryw £849,000. Nodwyd bod y lefel hon o gyllid ychwanegol wedi'i chynnwys yn y rhagamcanion, er nad oedd yr union ddyraniadau wedi'u cadarnhau eto.

Rhagwelid y byddai costau cyflog a lwfans swyddogion heddlu £153,000 dros y gyllideb. Roedd hyn yn cynnwys y dyfarniad cyflog uwch. Roedd y proffil ar gyfer unigolion a oedd yn ymadael ar gyfer mis Medi a mis Hydref wedi newid, gyda llai o ymddeoliadau ac ymadawyr bellach yn cael eu rhagweld nag a dybiwyd pan osodwyd y gyllideb. Nodwyd bod costau ychwanegol yr unigolion hyn yn cael eu gwrthbwyso'n rhannol gan oedi a gostyngiad yn y nifer a fyddai'n cael eu trosglwyddo ym mis Tachwedd. Dywedwyd bod y cynlluniau recriwtio cyfredol hyd at fis Mawrth 2026 yn anelu at ddarparu 1,328 o swyddi cyfwerth ag amser llawn erbyn mis Mawrth 2026, a oedd yn darparu'r capasiti i gyfalafu'n gynnar pe byddai cyllid Gwarant Plismona Bro ychwanegol ar gael, ond byddai hefyd yn caniatáu i ni ddychwelyd i gynnal dau ymgyrch recriwtio, ym mis Medi a mis Mawrth 2026–2027.

Nodwyd bod taliadau goramser swyddogion yr heddlu £305,000 yn uwch na'r gyllideb.  Y gwariant gwirioneddol ar daliadau goramser swyddogion am y chwe mis cyntaf oedd £1.433 miliwn, a oedd £326,000 yn uwch na'r hyn a broffiliwyd ar gyfer y cyfnod yn erbyn cyfanswm cyllideb flynyddol o £2.257 miliwn. Dywedwyd y dylai effaith y newid yn y rotas achosi gostyngiad yn y gofyniad am oramser ar gyfer ymholiadau troseddau, o ganlyniad i'r cyfnodau trosglwyddo gwell a oedd wedi'u hymgorffori yn y rotas newydd. Bu defnydd sylweddol o leoliadau cydgymorth gydol mis Medi, a byddai modd adennill y costau hyn. Nodwyd bod monitro goramser yn parhau i fod yn ffocws, fel rhan o grŵp adolygu goramser misol y Prif Gwnstabl Cynorthwyol.

Roedd disgwyl i gyllidebau staff yr heddlu fod o fewn y gyllideb o £411,000 gydag ychydig o oedi o ran recriwtio staff yn erbyn y Gwarant Plismona Bro, moderneiddio'r gweithlu, a recriwtio cyffredinol pan fyddai unigolion yn ymadael. Roedd hyn yn gwrthbwyso effaith y codiad cyflog a oedd wedi'i dybio i staff ar lefel y cynnig o 4.2%, a oedd yn destun ymgynghoriad gan Unsain ar hyn o bryd.

Y rhagamcaniad ar gyfer costau nad ydynt yn ymwneud â chyflog oedd tanwariant o £606,000, a oedd yn ymwneud yn bennaf ag arbedion yn ystod y flwyddyn o ran costau ynni, rhent a chyfleustodau. Rhagwelid y byddai'r cyllidebau incwm oddeutu £397,000 yn is na'r gyllideb, a oedd yn cael eu cynrychioli yn bennaf gan ffioedd erlyn (£162,000) a thrwyddedu arfau saethu (£153,000).

Roedd incwm grant o £849,000 wedi cael ei amcangyfrif ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys fel cyfran o'r £120 miliwn a oedd yn cael ei ddyrannu'n genedlaethol tuag at y codiad cyflog.  Unwaith y byddai'r incwm hwn wedi'i gadarnhau, byddai trosglwyddiant arian yn cael ei gyflawni er mwyn ychwanegu'r gyllideb a'r targed incwm at y cyfrifon.

I grynhoi ar gyfer 2025–2026, nodwyd bod y sefyllfa gyllidebol yn parhau i fod yn gadarnhaol ar hyn o bryd, gyda'r disgwyl y byddai cymorth y codiad cyflog yn

talu am y gorwariant ar gyflogau swyddogion, goramser a chostau fforensig. Byddai'r cyllidebau'n cael eu monitro'n agos yn ystod y misoedd nesaf, yn barod ar gyfer gosod y gyllideb ar gyfer 2026–2027.

O ran gwariant cyfalaf hyd at ddiwedd mis Medi 2025, roedd y gwariant cyfalaf yn cael ei ragweld i fod yn £21.057 miliwn yn erbyn cyllideb gyfalaf o £28.101 miliwn. Roedd y rhagamcaniad hwn yn cael ei herio a byddai'n cael ei ddiweddaru yn ystod yr wythnosau nesaf. Nodwyd y byddai llithriant yn cael ei adolygu gydol y flwyddyn ariannol, gyda'r gyllideb ar gyfer 2025–2026 a'r blynyddoedd i ddod yn cael ei diwygio yn ôl yr angen.

**Cam gweithredu: Yr heddlu i gadarnhau ble y caiff ad-daliadau ardrethi ystadau eu hadlewyrchu yn y cyfrifon.**

**Cam gweithredu: Yr heddlu i ddarparu mwy o wybodaeth ynghylch croniadau goramser swyddogion yr heddlu a chydgymorth.**

## d) Y newyddion diweddaraf am fodel gweithredu'r heddlu

Darparodd yr Uwch-swyddog Cyfrifol am Adolygiad yr Heddlu, Gareth Scanlon, bapur i'r bwrdd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar fodel gweithredu'r heddlu.

O ran yr wybodaeth ddiweddaraf am y rhaglen cymysgedd gweithlu, roedd gwaith yn parhau i gyflawni uchelgais y sefydliad i recriwtio 50 o staff heddlu cyfwerth ag amser llawn er mwyn caniatáu i 50 o swyddogion heddlu cyfwerth ag amser llawn gael eu rhyddhau o 'swyddogaethau corfforaethol' i blismona ar y rheng flaen. Nodwyd bod dwy ffrwd ariannu yn cynnal y fenter hon:

- Gwarant Plismona Bro: 33 swyddog heddlu cyfwerth ag amser llawn i dimau plismona ac atal bro.
- Cyllid praesept: 17 swyddog heddlu cyfwerth ag amser llawn i dimau ymateb yr heddlu mewn lifrai.

Ar hyn o bryd, roedd ffigwr o 55% wedi'i sicrhau o ran recriwtio staff yr heddlu i alluogi cymysgedd gweithlu ar gyfer y Gwarant Plismona Bro. Roedd sawl proses recriwtio yn mynd rhagddynt, ac roedd rhai eto i'w cychwyn o ganlyniad i sawl her.

Ochr yn ochr â hyn, roedd proses datgan diddordeb wedi cau yn ddiweddar a oedd â'r nod o gynyddu nifer y cwnstabliaid plismona ac atal bro, a denwyd 40 o ymgeiswyr. Roedd hyn yn cael ei reoli'n agos i leihau'r risg bod yr ymarfer hwn yn effeithio'n andwyol ar niferoedd tîm ymateb yr heddlu mewn lifrai.

Roedd y brif her a wynebwyd yn ganlyniad i'r prosesau recriwtio, a'r cyflymder angenrheidiol ar gyfer y prosesau recriwtio, er mwyn bodloni amserlenni grantiau. Roedd hyn yn cael ei waethygu gan bwysau capasiti, a/neu amseroedd rhagarweiniol prosesau, mewn meysydd a oedd yn cynorthwyo'r gwaith recriwtio, er enghraifft (heb fod yn hollgynhwysfawr):

- Amseroedd rhagarweiniol / prosesu cyn penodi, fetio a gwiriad meddygol.
- Ail flaenoriaethu a chyflwyno hyfforddiant cyflym i staff yr heddlu newydd eu recriwtio.
- Diddordeb (a llwyddiant) mawr gan staff presennol yr heddlu (yn aml o swyddogaethau hollbwysig eraill) ar gyfer rolau cymysgedd gweithlu staff yr heddlu newydd eu hysbysebu yn unol â'r Gwarant Plismona Bro. Nodwyd bod hyn yn gwaethygu'r heriau recriwtio oherwydd yr angen am ragor o recriwtio a chyfnodau hyfforddi i lenwi'r bylchau a adawyd gan ymgeiswyr mewnol llwyddiannus.

## e) Yr wybodaeth ddiweddaraf am yr asesiad o'r effaith ar ddiogelu data

Darparodd Debby Jones, y Rheolwr Gwybodaeth, yr wybodaeth ddiweddaraf i'r bwrdd ynghylch y sefyllfa o ran yr asesiad o'r effaith ar ddiogelu data.

Nodwyd bod templed / proses electronig newydd wedi'i ddatblygu ar gyfer cynnal asesiad o'r effaith ar ddiogelu data. Roedd y Swyddog Diogelu Data a'r Cynghorydd Diogelu Data wedi codi pryderon ynghylch y 'set o gwestiynau' a'r broses o wneud penderfyniadau o fewn y broses newydd. Roedd pryderon na fyddai'r broses, yn ei ffurf bresennol, yn darparu'r wybodaeth y byddai ei hangen i wneud penderfyniadau yn seiliedig ar risg yn unol â'r ddeddfwriaeth a'r wybodaeth y byddai ei hangen ar gyfer sefydlu dogfennaeth arall a oedd yn ofynnol yn gyfreithiol, a llywio'r broses gofnodi ar gyfer gweithgareddau prosesu a phroses y gofrestr asedau gwybodaeth. Roedd y Swyddog Diogelu Data wedi rhoi cyngor ar hyn, ac o ganlyniad, roedd gwaith ymgynghori pellach yn mynd rhagddo gyda'r nod o sicrhau bod y broses yn bodloni gofynion y ddeddfwriaeth, gan gynnwys cyfrifoldebau cyfreithiol y rheolwr data, a'r prosesau eraill yn deillio o broses yr asesiad o'r effaith ar ddiogelu data.

Byddai proses derfynol yr asesiad o'r effaith ar ddiogelu data y cytunwyd arni yn cael ei phrofi cyn iddi fynd yn fyw gan staff IMBA, a byddai'n ofynnol iddynt ddefnyddio'r broses yn ddyddiol.

Nodwyd bod cyfarfod misol ar gyfer blaenoriaethu asesiad o'r effaith ar ddiogelu data wedi'i drefnu gan y Dirprwy Prif Gwnstabl, a byddai'r Dirprwy Brif Gwnstabl, y Prif Gwnstabl Cynorthwyol, Prif Swyddog Gweithredol Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu, y Rheolwr Caffael a'r Swyddog Diogelu Data yn bresennol.

Roedd cynllun gweithredu wedi'i ddatblygu yn seiliedig ar argymhellion a wnaed gan y Prif Arolygydd Evans yn ei adroddiad diweddaru i'r Dirprwy Brif Gwnstabl. Roedd y cynllun gweithredu wedi'i gyflwyno i'w drafod yng nghyfarfod blaenoriaethu asesiad o'r effaith ar ddiogelu data nesaf y Dirprwy Brif Gwnstabl yn ddiweddarach ym mis Hydref.

Roedd tîm IMBA yn ymgymryd â phroses Fframwaith Atebolrwydd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, a oedd wedi'i chynllunio i helpu sefydliadau i asesu eu cydymffurfedd eu hunain â gofynion allweddol o dan gyfraith diogelu data.

Roedd hyn yn cynnwys adran ar risgiau ac asesiadau o'r effaith ar ddiogelu data. Byddai adroddiad yn cael ei lunio yn amlinellu cydymffurfedd yr heddlu wedi i'r fframwaith cyfan gael ei adolygu.

Heriau'r dyfodol:

- Mwy o lwyth gwaith ar draws yr adran.
- Sicrhau cydymffurfedd â deddfwriaeth cydymffurfio gwybodaeth ar draws yr heddlu o safbwynt llywodraethu a gofynion o ran hyfforddiant ac ymwybyddiaeth.
- Heriau llywodraethu gwybodaeth a bygythiadau diogelwch gwybodaeth sy'n dod i'r amlwg o ganlyniad i ddeallusrwydd artiffisial, seiber-ymosodiadau, teilwra cymdeithasol a'r gadwyn gyflenwi.

**Cam gweithredu: Yr heddlu i sgorio'r risg sy'n ymwneud ag asesiad o'r effaith ar ddiogelu data a chymryd camau gweithredu, os oes angen, i'w cynnwys ar gofrestr risg gorfforaethol yr heddlu.**

### f) Strategaeth Partneriaeth Weithredol

Nododd y bwrdd yr adroddiad ynghylch y Strategaeth Partneriaeth Weithredol, a chyflwynodd y Prif Gwnstabl weledigaeth, nod, bwriad ac amcanion strategol y strategaeth. Esboniodd y Prif Gwnstabl hefyd y gwaith llywodraethu a'r atebolrwydd arfaethedig ar gyfer y strategaeth.

Nodwyd bod y camau nesaf yn cynnwys cynnal dadansoddiad mapio rhanddeiliaid, ymgysylltu â rhanddeiliaid a phartneriaid a chwblhau'r strategaeth ac amserlennu grwpiau llywodraethu.

**Cam gweithredu: Strategaeth Partneriaeth Weithredol ddiwygiedig i'w chyflwyno'n ôl i'r Bwrdd Plismona yn dilyn adolygiad gan y Prif Gwnstabl.**

**Cam gweithredu: Y Strategaeth Bartneriaeth Weithredol ddiwygiedig i gael ei rhannu â Chyfarwyddwr Comisiynu Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn dilyn adolygiad gan y Prif Gwnstabl.**

### g) Fframwaith Cymru Gydnerth

Bu'r bwrdd yn trafod rhaglen waith Partneriaeth Cymru Gydnerth 2025–2026 a oedd yn nodi camau gweithredu cynllun cyflawni Fframwaith Cymru Gydnerth.

### h) Atal ac ymyrraeth: Plant a phobl ifanc

Nododd y bwrdd yr adroddiad a gyflwynwyd gan Gareth Scanlon, a'r cynnydd mewn perthynas â'r gweithgaredd hwn, gan gynnwys recriwtio, llywodraethu a

gofynion o ran perfformiad. Bu'r bwrdd hefyd yn trafod y datblygiad mewn perthynas â'r gwasanaethau a gomisiynwyd ar gyfer Eiliadau Cyraeddadwy, a fyddai'n cael eu datblygu gan Adferiad. Y bwriad oedd i hyn fynd yn fyw ddechrau mis Tachwedd 2025.

Dywedodd y Prif Swyddog Cyllid dros dro fod adroddiad wedi dod i law'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu ynghylch newid posibl i'r rhaglen ymyrraeth o ran plant a phobl ifanc, a bod yr heddlu yn bwriadu creu rôl cydlynydd i ddefnyddio'r cyllid a neilltuwyd ar gyfer diben wahanol, sef gweithiwr achos Fearless. Gofynnodd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu am eglurder a rhesymeg y tu ôl i'r cais a'r effaith weithredol. Dywedodd y Prif Gwnstabl nad oedd y cais hwn wedi'i gyflwyno drwy uwch noddwyr.

**Cam gweithredu: Rhannu strategaeth ymgysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu.**

**Cam gweithredu: Gofynnodd y Prif Gwnstabl i'r achos busnes a oedd yn ymwneud â'r gweithiwr achos Fearless gael ei gyflwyno i uwch noddwyr.**

### i) Unrhyw fater arall

### a) Llythyr gan drigolion yn ardal yr heddlu – pryderon o ran diogelwch

Bu'r bwrdd yn trafod llythyr a ddaeth i law gan drigolion yn ardal yr heddlu yn ymwneud â phryderon o ran diogelwch. Dywedodd y Prif Gwnstabl fod cynllun gweithredu ar y gweill i fynd i'r afael â'r mater a godwyd yn y llythyr, gan gynnwys cyfarfod â phrif weithredwr yr awdurdod lleol, a chomander yr Uned Rheoli Sylfaenol.

**Cam gweithredu: Trefniadau i'w gwneud i'r Prif Gwnstabl a'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu gyfarfod â thrigolion yn yr ardal parthed y pryderon o ran diogelwch.**

| Cam gweithredu | Crynodeb o'r camau gweithredu o gyfarfod 21 Hydref 2025 | I'w symud ymlaen gan |
|---|---|---|
| **PB 094** | Yr heddlu i gadarnhau a oes modd oedi'r cynllun ailhyfforddi gyrwyr er mwyn dal i fyny ac, os felly, a oes goblygiadau ariannol i'r heddlu. | Yr heddlu |
| **PB 095** | Yr heddlu i ystyried gwella'r gyfradd o drosglwyddiadau byw rhwng Canolfan Gyfathrebu'r Heddlu a'r Uned Ymateb Rhithwir i Gam-drin Domestig. | Yr heddlu |

| | | |
|---|---|---|
| **PB 096** | Darparu mwy o wybodaeth ynghylch cynlluniau ar gyfer contractau tymor penodol ar gyfer yr haf nesaf i fyfyrwyr. | Yr heddlu |
| **PB 097** | Yr heddlu i egluro ffynhonnell y cyllid grant ar gyfer datblygu dangosfwrdd a fyddai'n caniatáu i'r metrigau perfformiad data gael eu hawtomeiddio gyda'r Uned Plismona Ffyrdd. | Yr heddlu |
| **PB 098** | Yr heddlu i gadarnhau ble y caiff ad-daliadau ardrethi ystadau eu hadlewyrchu yn y cyfrifon. | Yr heddlu |
| **PB 099** | Yr heddlu i ddarparu mwy o wybodaeth ynghylch croniadau goramser swyddogion yr heddlu a chydgymorth. | Yr heddlu |
| **PB 100** | Yr heddlu i sgorio'r risg sy'n ymwneud ag asesiad o'r effaith ar ddiogelu data a chymryd camau gweithredu, os oes angen, i'w cynnwys ar gofrestr risg gorfforaethol yr heddlu. | Yr heddlu |
| **PB 101** | Strategaeth Partneriaeth Weithredol ddiwygiedig i'w chyflwyno'n ôl i'r Bwrdd Plismona yn dilyn adolygiad gan y Prif Gwnstabl. | Yr heddlu |
| **PB 102** | Y Strategaeth Bartneriaeth Weithredol ddiwygiedig i gael ei rhannu â Chyfarwyddwr Comisiynu Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn dilyn adolygiad gan y Prif Gwnstabl. | Yr heddlu |
| **PB 103** | Rhannu strategaeth ymgysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu. | Yr heddlu |
| **PB 104** | Gofynnodd y Prif Gwnstabl i'r achos busnes a oedd yn ymwneud â'r gweithiwr achos Fearless gael ei gyflwyno i uwch noddwyr. | Yr heddlu |
| **PB 105** | Trefniadau i'w gwneud i'r Prif Gwnstabl a'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu gyfarfod â thrigolion yn yr ardal parthed y pryderon o ran diogelwch. | Yr heddlu |
| **PB 106** | Beth oedd y swm a ddyrannwyd (£172,000) ar gyfer Ymgyrch Valiant, a faint sydd wedi'i wario (£231,000)? | Yr heddlu |

DIWEDD